Rhif: WG31919

Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

# Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Fyfyrwyr) (Cymru) 2017

# Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Gyrchfannau) (Gweithgareddau Rhagnodedig) (Cymru) 2017

Dyddiad cyhoeddi: 8 Mai 2017
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 31 Gorffennaf 2017

OGL © Hawlfraint y Goron

**Trosolwg**

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am eich barn chi ar bolisi'n ymwneud â dwy set o Reoliadau sy'n pennu ein gofynion rhannu gwybodaeth am fyfyrwyr er mwyn darparu gwybodaeth newydd well ar ganlyniadau dysgu. Mae'r Rheoliadau yn ymwneud â rhannu gwybodaeth am gymwysterau a chyrchfannau myfyrwyr â sefydliadau yng Nghymru a Lloegr.

**Sut i ymateb**

Daw'r ymgynghoriad i ben ar **31 Gorffennaf 2017**. Gallwch ymateb ar-lein trwy'n gwefan neu lawrlwytho ffurflen ymateb, ei llenwi a'i hanfon i post16quality@wales.gsi.gov.uk neu'r cyfeiriad post isod.

**Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig**

**Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**

Mae'r dogfennau ymgynghori ar wefan Llywodraeth Cymru yn https://ymgyngoriadau.llyw.cymru

Deddf Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth 2015
http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2015/26/contents/enacted/data.htm

**Manylion Cysylltu**

Y Gangen Ansawdd a Rheoli Data Ôl-16
Llywodraeth Cymru
Tŷ'r Afon
Ffordd Bedwas
Caerffili
CF83 8WT

e-bost: post16quality@wales.gsi.gov.uk

Ffôn: 0300 025 3905

**Diogelu Data**

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae

hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, ticiwch y blwch isod. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai opeidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

## Cefndir

1. Cafodd Deddf Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth 2015 Gydsyniad Brenhinol ar 26 Mawrth 2015. Mae Rhan 6 o'r Ddeddf yn ymwneud â rhannu data gwerthuso addysg. Roedd Adrannau 79 ac 80 yn mewnosod adran newydd i Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 ac adran newydd 49B i Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992. Maent yn trefnu i Weinidogion Cymru wneud Rheoliadau ar rannu gwybodaeth well am ganlyniadau dysgwyr, gan gynnwys sut maent yn camu ymlaen trwy addysg ac i'r farchnad lafur. Bydd yn caniatáu i lywodraethau'r DU a Chymru rannu, ar lefel myfyriwr, gwybodaeth am gymwysterau a chyrchfannau myfyrwyr â sefydliadau yng Nghymru a Lloegr.

## Y cefndir polisi i'r rheoliadau arfaethedig

2. Mae angen i'r system sgiliau yng Nghymru addasu i amryw o heriau os ydym am sicrhau ei bod yn parhau'n gystadleuol a chynaliadwy i'r dyfodol. Bydd mesur ein perfformiad a meincnodi ein hymdrechion yn rhyngwladol yn elfen bwysig er mwyn ein cadw ar y trywydd cywir wrth gyflwyno newidiadau i'r dyfodol. Mae Cynllun Gweithredu Sgiliau Llywodraeth Cymru yn nodi swyddi a thwf ymhlith ei brif flaenoriaethau dros sicrhau system sgiliau gynaliadwy, o safon byd, yng Nghymru. Bydd camu ymlaen o ddysgu i addysg bellach a chyflogaeth yn un o'r prif fesurau perfformiad a fydd yn galluogi Llywodraeth Cymru i asesu perthnasedd a gwerth am arian y rhaglenni a ariennir ganddi.

3. Ar hyn o bryd, mae gennym drefniadau ar wahân er mwyn mesur perfformiad yn y chweched dosbarth ac mewn addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith yng Nghymru. Golyga hyn nad ydym yn gallu mesur canlyniadau mewn ffordd ystyrlon ar draws lleoliadau addysg, ac nad yw dysgwyr a rhieni yn gallu cael gafael ar wybodaeth glir i'w helpu gyda'u dewisiadau. Ar ben hynny, mae'r mesurau cyfredol yn gyfan gwbl seiliedig ar ganlyniadau tymor byr fel cyrhaeddiad cymwysterau'r dysgwr, yn hytrach nag effeithiau tymor hirach fel camu i gyflogaeth neu addysg bellach.

4. Mae'r angen i ddygwyr allu ystyried eu hopsiynau'n llawnach wrth iddynt gwblhau eu haddysg ôl-16 yn rhan bwysig o alluogi pobl ifanc i wneud dewisiadau effeithiol.

5. Yn ddiweddar, cynhaliwyd ymgynghoriad ar ein dull arfaethedig o fesur canlyniadau rhaglenni ôl-16 oed ar gyfer y chwechbed dosbarth ac mewn sefydliadau addysg bellach[1]. Bydd canlyniadau'r ymgynghoriad hwn yn cael eu cyhoeddi cyn bo hir. Bydd y rheoliadau newydd arfaethedig a ddisgrifir yn y ddogfen hon yn ein helpu i sicrhau bod y data a ddefnyddir yn y mesurau yn glir, yn gywir a chredadwy.

6. Bydd y pwerau newydd i greu rheoliadau yn caniatáu ar gyfer ehangu pwerau rhannu gwybodaeth sydd gennym eisoes ar gyfer ysgolion (dan adran 537A o Ddeddf Addysg 1996). Bydd hyn yn cynnwys rhannu gwybodaeth gyda

[1] https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/mesurau-cyson-ar-gyfer-dysgu-ol-16-yng-nghymru

sefydliadau addysg bellach a darparwyr dysgu eraill (darparwyr dysgu seiliedig ar waith, awdurdodau lleol sy'n dysgu oedolion yn y gymuned a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol). Bydd yn eu galluogi i rannu data y mae eisoes yn ei gasglu ar gyrhaeddiad dysgwyr unigol (gan sefydliadau dyfarnu) a chyrchfannau (o ffynonellau amrywiol), gyda sefydliadau ar lefel dysgwyr cyn ei gyhoeddi ar ffurf data cyfanredol.

7. Yn ogystal â galluogi darparwyr dysgu i wirio eu data cyn cyhoeddi, bydd yn helpu i gynyddu hyder mewn gwybodaeth a gyhoeddir am berfformiad, ac yn helpu sefydliadau i wella canlyniadau dysgwyr; gwneud dewisiadau gwybodus am ba ddarpariaeth i'w chynnig; a rhoi cyngor gyrfaoedd priodol trwy wella eu dealltwriaeth o ganlyniadau eu myfyrwyr.

*Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Fyfyrwyr) (Cymru) 2017*

8. Mae cynhyrchu data perfformiad o'r radd flaenaf yn dibynnu ar gasglu a rhannu gwybodaeth am gymwysterau dysgwyr unigol. O ran ysgolion, mae Llywodraeth Cymru a'i chontractwyr yn casglu gwybodaeth am gymwysterau ar lefel dysgwyr gan gyrff dyfarnu. Yna, mae'n cael ei chronni i gyfrifo mesurau perfformiad ar lefel ysgol. Ar gyfer sicrwydd ansawdd, mae'r wybodaeth hon yn cael ei rhannu'n ôl â'r sefydliad lle mae'r myfyriwr wedi'i gofrestru, cyn cyhoeddi'r data dan y pwerau rhannu gwybodaeth cyfredol yn adran 537A o Ddeddf Addysg 1996. Gofynnir i ysgolion wirio'r canlyniadau i fyfyrwyr cyn cyhoeddi'r mesurau perfformiad.

9. Y bwriad yw i'r rheoliadau ehangu'r pwerau rhannu gwybodaeth hyn i gynnwys sefydliadau addysg bellach a darparwyr addysg eraill (darparwyr dysgu seiliedig ar waith, awdurdodau lleol sy'n dysgu oedolion yn y gymuned a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol er mwyn sicrhau cywirdeb a hygrededd mesurau perfformiad i ddarparwyr ôl-16 yng Nghymru, gan y byddant yn caniatáu dull clir o rannu data cyn cyhoeddi data perfformiad cyfanredol.

*Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Gyrchfannau) (Gweithgareddau Rhagnodedig) (Cymru) 2017*

10. Fe wnaethom gyhoeddi mesurau cyrchfannau fel ystadegau arbrofol am y tro cyntaf yn 2014. Roedd y wybodaeth a gyhoeddwyd yn dangos cyrchfannau'r myfyrwyr a gwblhaodd gyfnod allweddol 4; a'r rhai a gwblhaodd arholiadau Safon Uwch neu 3 chymhwyster arall (cyfnod allweddol 5). Cafodd y wybodaeth ei chyhoeddi ar ffurf anhysbys, cyfanredol, yn dangos cyfran y myfyrwyr a aeth ymlaen i fyd addysg neu hyfforddiant yn y flwyddyn academaidd ar ôl gadael cyfnod allweddol 4 neu gyfnod allweddol 5.

11. Hoffem sicrhau bod gwybodaeth ar lefel dysgwyr ar gael i ysgolion a cholegau fel bod ganddynt fwy o ddealltwriaeth o'r wybodaeth cyn y caiff ei chyhoeddi, a ffydd ynddi. Tra bod deddfwriaeth gyfredol yn caniatáu i ni rannu gwybodaeth ar lefel disgyblion gydag ysgolion, nid oes gennym ddeddfwriaeth i rannu gwybodaeth ar lefel dysgwyr gyda darparwyr addysg eraill. Bydd y Rheoliadau yn ein galluogi i wneud hyn.

**C1.** Ydych chi'n cytuno bod y polisi sy'n sail i'r ddwy set o reoliadau yn addas?

**C2.** Ydych chi'n credu y bydd y polisi sy'n sail i'r ddwy set o reoliadau yn creu unrhyw effeithiau ar gydraddoldeb?

**Cefndir deddfwriaethol y rheoliadau arfaethedig**

*Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Fyfyrwyr) (Cymru) 2017*

12. Mae'r Rheoliadau hyn yn ehangu'r pwerau rhannu gwybodaeth sydd gennym eisoes dan adran 537A o Ddeddf Addysg 1996 i gynnwys sefydliadau addysg bellach a darparwyr addysg eraill (darparwyr dysgu seiliedig ar waith, awdurdodau lleol sy'n dysgu oedolion yn y gymuned a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol).

13. Mae Adran 253A o'r Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 ("Deddf 2009") yn galluogi pobl yng Nghymru a Lloegr i rannu gwybodaeth am fyfyrwyr ag amrywiaeth o bobl.

14. Mae Adran 253A yn galluogi unrhyw un yng Nghymru a Lloegr i rannu gwybodaeth am fyfyrwyr gyda'r Ysgrifennydd Gwladol, Gweinidogion Cymru, casglwr gwybodaeth neu berson rhagnodedig neu gategori o bobl. Bydd y rhai y gellir rhannu gwybodaeth â nhw wedi'u pennu mewn rheoliadau, yn ogystal â'r wybodaeth y gellir ei rhannu ac o dan ba amgylchiadau.

*Gwybodaeth am fyfyrwyr*

15. Mae'r diffiniad o wybodaeth am fyfyrwyr yn is-adran (6) o adran 253A. Dim ond gwybodaeth sy'n rhan o ddisgrifiad rhagnodedig yn y rheoliadau y gellir ei rhannu. Bydd gwybodaeth a rennir dan y cymal wedi'i chyfyngu i wybodaeth am gymwysterau, fel enw'r myfyrwyr a'u canlyniadau arholiadau.

*Amgylchiadau rhagnodedig*

16. Mae rheoliadau hefyd yn pennu dan amgylchiadau y gellir rhannu gwybodaeth am fyfyrwyr:

    (i) gall Gweinidogion Cymru neu'r casglwr gwybodaeth <u>ddarparu</u> gwybodaeth am fyfyrwyr os yw'r wybodaeth honno'n ymwneud â rhywun sydd naill ai wedi ymrestru yn y gorffennol neu ar hyn o bryd gyda darparwr dysgu er mwyn cael cymhwyster cymeradwy (cymhwyster sy'n gymwys i dderbyn cyllid gan Weinidogion Cymru dan Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 neu Ran 4 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015).

    (ii) gall gwybodaeth gael ei <u>darparu</u> i Weinidogion Cymru neu gasglwr gwybodaeth os yw'r wybodaeth honno'n ymwneud ag unigolyn sydd naill ai wedi ymrestru yn y gorffennol neu ar hyn o bryd gyda darparwr dysgu er mwyn cael cymhwyster cymeradwy a bod Gweinidog Cymru neu gasglwr gwybodaeth wedi gofyn am y wybodaeth honno.

(iii) gellir darparu gwybodaeth i unigolyn rhagnodedig neu gategori penodedig o berson os yw’r wybodaeth yn ymwneud ag unigolyn sydd naill ai wedi ymrestru yn y gorffennol neu ar hyn o bryd gyda darparwr dysgu er mwyn cael cymhwyster cymeradwy, a bod yr unigolyn dan sylw wedi ymrestru neu gofrestru gyda’r sawl sy’n darparu’r wybodaeth honno.

**C3.** Ydych chi’n cytuno â’r amgylchiadau lle gellir rhannu gwybodaeth am fyfyrwyr?

*Personau neu berson rhagnodedig o fewn categori rhagnodedig*

17. Mae’r rheoliadau’n pennu’r personau a’r categorïau o berson y gall rhywun yng Nghymru ddarparu gwybodaeth am fyfyrwyr ar ei gyfer/ar eu cyfer:

| Person rhagnodedig | Rheswm |
|---|---|
| Estyn - Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru | Helpu’r arolygiaeth i gyflawni ei swyddogaethau statudol sy’n ymwneud ag addysg ôl-16 yng Nghymru |
| Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru | Er mwyn cynnal dadansoddiad ystadegol ar ehangu cyfranogiad. |
| Higher Education Council for England (HEFCE) | |
| Ysgrifennydd Gwladol | Er mwyn darparu data ar ddysgwyr sy’n hanu o Gymru sydd wedi symud dros y ffin i Loegr. |
| Cwmni benthyciadau myfyrwyr | Darparu niferoedd poblogaeth myfyrwyr cymwys er mwyn eu galluogi i gyfrifo’r niferoedd sy’n cael benthyciadau. |
| Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a’r Colegau (UCAS) | Helpu proses glirio prifysgolion. |
| Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) | Helpu i ddadansoddi data addysg uwch ar gyfer myfyrwyr sy’n hanu o Gymru. |
| Gyrfa Cymru | Cefnogi’r fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuenctid er mwyn lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET). |
| Y Cyd-gyngor Cymwysterau | Sicrhau cywirdeb a hygrededd canlyniadau arholiadau cyn eu cyhoeddi. |
| Cymwysterau Cymru | Bodloni gofynion ymchwil i gymwysterau galwedigaethol. |
| The Office of Qualifications and Examinations Regulation (Ofqual) | |

| Categori rhagnodedig o berson | Rheswm |
|---|---|
| Darparwyr dysgu (person (gan gynnwys sefydliadau addysg bellach ac uwch) sy’n darparu rhaglen addysg neu hyfforddiant a ddatblygwyd i ddiwallu anghenion person 16 oed a throsodd sy’n derbyn cyllid gan Weinidogion Cymru). | Gwirio canlyniadau eu myfyrwyr, er mwyn sicrhau cywirdeb a hygrededd mesurau perfformiad ar gyfer darparwyr ôl-16 yng Nghymru cyn eu cyhoeddi. |

| Categori rhagnodedig o berson | Rheswm |
|---|---|
| Personau sydd, at ddibenion hybu addysg neu lesiant myfyrwyr yng Nghymru, yn<br>(a) cynnal gwaith ymchwil neu ddadansoddi;<br>(b) cynhyrchu ystadegau;<br>(c) darparu cyngor, gwybodaeth neu arweiniad | Cymeradwyo ar sail achosion unigol er mwyn galluogi academyddion neu sefydliadau ymchwil i gynnal ymchwil ystadegol. Bydd unrhyw gyhoeddiadau ystadegol sy'n seiliedig ar ymchwil o'r fath yn cynnwys data anhysbys. |

**C4.** Ydych chi'n cytuno â'r sefydliadau a enwir y gallai personau ddarparu gwybodaeth am fyfyrwyr iddynt?

**C5.** Os nad yw'ch sefydliad wedi'i enwi fel 'person rhagnodedig' neu 'berson sy'n rhan o gategori rhagnodedig' ond eich bod yn credu bod angen cael gafael ar wybodaeth ar lefel myfyrwyr at ddibenion y tu hwnt i waith ymchwil, dadansoddi a darparu gwybodaeth, cyngor a chanllawiau, a fyddech cystal ag esbonio pam yma?

*Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Gyrchfannau) (Gweithgareddau Rhagnodedig) (Cymru) 2017*

18. Mae adran newydd (adran 49B) wedi'i chynnwys yn Neddf Addysg Bellach ac Addysg Uwch 1992. Mae is-adran (2) o'r adran newydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i rannu gwybodaeth am gyrchfannau gyda chyrff llywodraethu sefydliadau addysg bellach yng Nghymru.

19. Mae gwybodaeth am gyrchfannau o safbwynt sefydliadau addysg bellach yn golygu gwybodaeth am eu cyn-fyfyrwyr, gan gynnwys gwybodaeth rhagnodedig am weithgareddau'r myfyrwyr hynny ar ôl iddynt adael y sefydliad. Mae'r rheoliadau yn cynnig y bydd y gweithgareddau sy'n cyfrif fel "gwybodaeth am gyrchfannau" yn cynnwys gwybodaeth sy'n nodi a aeth myfyrwyr ymlaen i addysg uwch, hyfforddiant neu gyflogaeth yn y flwyddyn academaidd wedi iddo/iddi orffen fel myfyriwr yn y sefydliad perthnasol.

20. Ni fydd gwybodaeth am gyrchfannau a dderbynnir dan y cymal newydd yn cael ei chyhoeddi mewn ffordd sy'n nodi pwy yw'r unigolyn dan sylw. Er bod y data'n ymwneud â myfyrwyr unigol, nid yw'n un o natur 'risg uchel'. Bydd yn dangos a aeth y myfyriwr ymlaen i ddilyn addysg bellach neu ymuno â'r byd gwaith. Mewn llawer o achosion, mae'r wybodaeth hon eisoes ar gael gan sefydliadau; er enghraifft, maen nhw'n derbyn gwybodaeth gan UCAS ar fyfyrwyr sy'n cael eu derbyn i gyrsiau addysg uwch (ac sy'n ymwneud yn uniongyrchol â helpu myfyrwyr gyda cheisiadau a chyfweliadau prifysgol).

**C6.** Ydych chi'n cytuno â'r gweithgareddau rhagnodedig?

**C7.** Ydych chi'n cytuno y dylem edrych ar gyrchfan myfyriwr yn y flwyddyn academaidd ar ôl iddo/iddi adael y sefydliad perthnasol?

**Diogelu data**

21. Er mwyn sicrhau diogelwch data, byddwn yn dilyn arferion cyfredol sy'n cydymffurfio â Deddf Diogelu Data 1998, a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol o 25 Mai 2018 ymlaen. Bydd yr holl wybodaeth a rennir dan y cymalau hyn yn cael eu cadw a'u trosglwyddo trwy system trosglwyddo ffeiliau electronig a gwefannau sydd wedi'u profi'n drylwyr ac sy'n glynu at safonau diogelwch gwybodaeth rhyngwladol.

22. Ni fydd gwybodaeth lle gellir adnabod dysgwyr unigol yn cael ei chyhoeddi. Bydd y wybodaeth yn cael ei chyhoeddi'n anhysbys ac ar ffurf cyfanredol. Bydd ystadegau a gyhoeddir yn defnyddio protocolau safonol er mwyn 'atal' ffigurau sy'n ymwneud â nifer fach o fyfyrwyr (fel arfer, lle mae cwrs neu grŵp yn cynnwys 5 neu lai o fyfyrwyr) er mwyn lleihau'r perygl o adnabod myfyriwr unigol.

**Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad**

Eich enw:

Sefydliad (os yw'n berthnasol):

Cyfeiriad e-bost:

Rhif ffôn:

Cyfeiriad:

**Cwestiynau cyffredinol am y ddwy set o reoliadau**

| |
|---|
| **C1.** Ydych chi'n cytuno bod y polisi sy'n sail i'r ddwy set o reoliadau yn addas? |
| Ydw/Nac ydw (dilëwch fel sy'n briodol) |
| Os ateboch chi 'nac ydw', esboniwch pam: |

| |
|---|
| **C2.** Ydych chi'n credu y bydd y polisi sy'n sail i'r ddwy set o reoliadau yn cael unrhyw effaith ar gydraddoldeb? |
| Ydw/Nac ydw (dilëwch fel sy'n briodol) |
| Os ateboch chi 'ydw', esboniwch beth yw'r effeithiau? |

**Cwestiynau penodol am Reoliadau Drafft Addysg (Gwybodaeth am Fyfyrwyr) (Cymru) 2017**

| |
|---|
| **C3.** Ydych chi'n cytuno â'r amgylchiadau lle gellir rhannu gwybodaeth am fyfyrwyr fel y nodir ym mharagraff 19 uchod? |
| Ydw/Nac ydw (dilëwch fel sy'n briodol) |
| Os ateboch chi 'nac ydw', esboniwch pam: |

*Personau rhagnodedig a chategorïau o bersonau*

Mae'r sefydliadau a enwir yn y rheoliadau drafft (naill ai fel 'personau rhagnodedig' neu 'bersonau' o fewn categori rhagnodedig') wedi'u cyfyngu i'r rheini sydd angen data at ddibenion y tu hwnt i ymchwil, gwybodaeth, cyngor a chanllawiau. Mae enghreifftiau'n cynnwys darparwyr dysgu a chyrff llywodraeth sy'n gweithio ym maes addysg. Ar y cyfan, mae'r cyrff hyn angen data ar lefel myfyrwyr oherwydd amcanion gweithredol fel monitro, arolygu, lleihau baich gweinyddol a sicrwydd ansawdd gwybodaeth. Mae'r Ddeddf Diogelu Data yn berthnasol i'r holl sefydliadau hyn.

| |
|---|
| **C4.** Ydych chi'n cytuno â'r sefydliadau a enwir y gallai personau ddarparu gwybodaeth am fyfyrwyr iddynt fel y nodir ym mharagraff 20 uchod? |
| Ydw/Nac ydw (dilëwch fel sy'n briodol) |
| Os ateboch chi 'nac ydw', esboniwch pam: |

| |
|---|
| **C5.** Os nad yw'ch sefydliad wedi'i enwi fel 'person rhagnodedig' neu 'berson sy'n rhan o gategori rhagnodedig' ond eich bod yn credu bod angen cael gafael ar wybodaeth ar lefel myfyrwyr at ddibenion y tu hwnt i waith ymchwil, dadansoddi a darparu gwybodaeth, cyngor a chanllawiau, a fyddech cystal ag esbonio pam yma? |
| |

**Cwestiynau penodol am Reoliadau Addysg (Gwybodaeth am Gyrchfannau) (Gweithgareddau rhagnodedig) (Cymru) Drafft 2017**

| |
|---|
| **C6.** Ydych chi'n cytuno â'r gweithgareddau rhagnodedig a nodir ym mharagraff 13 uchod? |
| Ydw/Nac ydw (dilëwch fel sy'n briodol) |
| Os ateboch chi 'nac ydw', esboniwch pam: |

| |
|---|
| **C7.** Ydych chi'n cytuno y dylem edrych ar gyrchfan y myfyriwr yn y flwyddyn academaidd wedi iddo/iddi adael y sefydliad perthnasol, fel y nodir ym mharagraff 13 uchod? |
| Ydw/Nac ydw (dilëwch fel sy'n briodol) |
| Os ateboch chi 'nac ydw', esboniwch pam a dywedwch pa gyfnod fyddai'n well yn eich barn chi: |

| |
|---|
| **C8.** Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt. |
| |

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma: ☐